

## **Disgyblion Ysgol Pentreuchaf yn galw ar fodurwyr i arafu**

Gyda dyfodiad y flwyddyn ysgol, mae plant o dair ysgol gynradd yng Ngwynedd am atgoffa modurwyr i yrru'n ofalus heibio eu hysgolion.

Mae disgyblion o Ysgol Pentreuchaf wedi chwarae rhan flaenllaw mewn cynllun i annog modurwyr i gadw o fewn cyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr tu allan i'w hysgol.

Yn rhan o'r cynllun, cafodd disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio arwyddion i'w gosod tu allan i'r ysgolion. Dyma'r tro cyntaf i gynllun o'i fath rhwng Uned Drafnidiaeth y Cyngor gyda chyfranogiad gan yr ysgol gael ei dreialu yng Ngwynedd.

Dyweddodd Dylan Wynn Jones, Rheolwr Gwelliannau Traffig Cyngor Gwynedd:

“Mae codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch y ffyrdd ymysg trigolion Gwynedd, ac yn enwedig gyda phlant a phobl ifanc y sir o bwysigrwydd mawr i'r Cyngor. Mae llawer o weithgareddau yn cael eu cynnal mewn ysgolion ar draws y sir drwy gydol y flwyddyn i annog disgyblion i fod yn wyladwrus ac i gymryd gofal ar ffyrdd Gwynedd. Mae'r cynllun hwn wedi mynd y cam ychwanegol hwnnw, lle mae disgyblion yn defnyddio'r hyn maen nhw wedi'u ddysgu i annog modurwyr i gymryd gofal ac i yrru'n ofalus o gwmpas eu hysgolion.”

Dyweddodd Gethin Thomas, Pennaeth Ysgol Pentreuchaf:

“Mae'r cynllun hwn wedi profi'n hynod lwyddiannus yn arafu llif traffig tu allan i'r ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n tybio mai un o'r rhesymau am hyn ydy oherwydd bod y disgyblion wedi cael mewnbwn yn dylunio'r arwyddion sydd wedi helpu i greu diddordeb ac annog ymrwymiad ymysg rhieni a'r gymuned ehangach i gyfyngu eu cyflymder wrth yrru heibio'r ysgol.”

Am fwy o wybodaeth am ddiogelwch ffyrdd yng Ngwynedd, ewch i [www.dffgwyneddmon.net](http://www.dffgwyneddmon.net)